CYLCHLYTHYR RHIFYN 02 • MEDI 2021

CARFAN GOFAL PLANT RHCT

SHWMAE A CHROESO I AIL RIFYN CYLCHLYTHYR CARFAN GOFAL PLANT RHCT.

Mae'r rhifyn yma'n cynnwys mwy o wybodaeth am ein cynhadledd sydd ar ddod, ynghyd â chyflwyno swyddog newydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Oliver.

Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth felly cysylltwch â ni.

Dyma ein Swyddog GGD newydd...

Helo, fy enw i yw Oliver a fi yw Swyddog Digidol newydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Fy ngwaith i yw darparu gwybodaeth i rieni, cynhalwyr, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth am ofal plant a gwasanaethau teuluol eraill.

Rydw i hefyd yn gyfrifol am ddiweddaru'r gronfa ddata DEWIS a sicrhau ei bod yn gyfredol. Mae DEWIS yn cynnig cyfle i chi hyrwyddo'ch busnes i rieni **AM DDIM**. Os nad ydych chi eisoes wedi cofrestru, cysylltwch â fi. Rydw i yma i'ch helpu chi. Os ydych chi wedi cofrestru, mae'n bwysig eich bod chi'n diweddaru'ch manylion. Bydd angen i chi wneud hynny bob chwe mis, a byddwch chi'n derbyn e-bost i'ch atgoffa chi. Rhaid i chi wneud hyn hyd yn oed os nad yw eich manylion wedi newid. Cofiwch nodi bod y dudalen yn 'Barod i'w Chyhoeddi' neu mae'n bosibl na fydd rhieni na'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gallu dod o hyd i chi!

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd ar Facebook ac rydyn ni'n rhannu diweddariadau pwysig am ofal plant ac yn hysbysebu achlysuron yn RhCT.

Dewch o hyd i ni ar @familiesRCT.

Mae croeso i chi gysylltu â fi gyda chwestiynau neu ymholiadau ar **0800 180 4151** neu, ar gyfer rhif am ddim ar ffonau symudol, **0300 111 4151**. Mae hefyd croeso i chi anfon neges e-bost i **GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk**.

Hyfforddiant

Am y tro cyntaf, byddwn ni'n cynnig hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ar-lein yn ystod hydref 2021. Mae'r holl gyrsiau eraill eisoes yn llawn ond rydyn ni'n cadw rhestr o enwau wrth gefn, felly cysylltwch â ni os hoffech chi i ni eich ychwanegu at y rhestr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan ac i'n tudalen Facebook.

Ar gyfer y cyrsiau sydd ar ddod, byddwn ni'n gofyn i chi gwblhau ffurflenni gwerthuso'r cwrs cyn i ni roi tystysgrif i chi. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi eu cwblhau ar ôl mynychu ein hyfforddiant. Maen nhw'n help mawr i ni werthuso ein cyrsiau a gwneud newidiadau os oes angen.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich adborth felly rhowch wybod i ni a oes angen cwrs hyfforddi arnoch chi dydyn ni ddim yn ei gynnig ar hyn o bryd.

Bydd mwy o sesiynau hyfforddi ar borth ar-lein y Cynnig Gofal Plant yn cael eu trefnu ar gyfer y tymor yma. Cadwch lygad ar eich e-byst ac ar Facebook am ddyddiadau'r sesiynau.

Cofiwch edrych ar ein tudalen Facebook preifat. Mae'n ffordd wych o gael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd ar faterion sy'n effeithio ar y sector Gofal Plant, yn ogystal â gwybodaeth am hyfforddiant sydd ar ddod, dangos y ffordd at wasanaethau eraill a llawer o fuddion eraill.

Ymunwch yma...

https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.

Cynnig Gofal Plant Cymru / addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN)

Cofiwch atgoffa rhieni bod ceisiadau am leoedd addysg Meithrinfa Cyfnod Sylfaen ar gyfer Ionawr 2022 *(ar gyfer plant sy'n 3 oed cyn 31 Rhagfyr 2021)* ar agor nawr ac yn cau ar **1 Hydref**.

Cyfeiriwch y rhieni at wefan: **www.rctcbc.gov.uk/derbyndisgyblion** am ragor o wybodaeth ac i wneud cais.

Mae ceisiadau Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant a fydd yn gymwys o fis Ionawr 2022 yn agor ar **15 Tachwedd**.

Mae modd i rieni wirio eu cymhwysedd a gwneud cais yma: **www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant**.

NEWYDDION!

Rydyn ni wedi cael y cyfle i wneud cais ar gyfer grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein darparwyr gyda gwneud gwelliannau TGCh a gwaith cyfalaf bach. Rydyn ni'n gobeithio dod i wybod cyn bo hir os ydy'r cais wedi bod yn llwyddiannus. Cadwch lygad ar ein tudalen Facebook a'ch e-byst ar gyfer rhagor o wybodaeth!

Cysylltwch â ni...

01443 570048

www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant

Carfan Gofal Plant:
CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk

Cynnig Gofal Plant Cymru (Darparwyr yn unig):
DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk

RCT Childcare Team

Carfan Gofal Plant yn RhCT
Childcare Team in RCT

gwasanaethau chwarae
play services

RHONDDA CYNON TAF

Cynhadledd Chwarae a Gofal Plant

Rydyn ni'n falch iawn o gynnal cynhadledd gofal plant a chwarae unwaith eto. Gan nad ydyn ni'n gwybod pa gyfyngiadau COVID fydd ar waith, bydd y gynhadledd yn gyfuniad o weithdai wyneb yn wyneb a gweithdai ar-lein rhwng 9 a 15 Hydref.

Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael - cofrestrwch nawr!

Mae modd cofrestru ar gyfer y gynhadledd drwy ein gwefan:
www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant.

Mae'r amserlen ddrafft isod. Mae rhagor o wybodaeth am y gweithdai ar ein gwefan.

AMSER	GWEITHDY	SEFYDLIAD	LLEOLIAD
	Dydd Sadwrn 9 Hydref		
10:00	**Agor y gynhadledd**		Canolfan i Blant a Theuluoedd Rhydfelen
11:00	**ABC yr Opera -** Gweithdy rhyngweithiol gyda llwyth o syniadau i ymgorffori cerddoriaeth, drama, iaith, hanes a rhagor yn eich lleoliad gofal plant neu'ch lleoliad chwarae. Yn addas ar gyfer plant cyn-ysgol a hŷn.	ABC yr Opera	
	Dydd Llun 11 Hydref		
10:00	**Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg -** Darganfyddwch sut i ymgorffori Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn eich lleoliad	Clybiau Plant Cymru	Canolfan i Blant a Theuluoedd Rhydfelen
10:00	**Cyflwyniad i Mudiad Meithrin -** Pwy yw Mudiad Meithrin, Beth rydyn ni'n ei wneud a pham mae'r Gymraeg wrth wraidd ein Gwaith.	Mudiad Meithrin	Ar-lein
13:30	**Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth -** Trosolwg ar egwyddorion allweddol y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, y carfanau a'r rolau sy'n rhan o'r broses a'r prosesau atgyfeirio.	Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Ar-lein
13:30	**Therapi Lego -** I'w gadarnhau	Cyngor Rhondda Cynon Taf	Canolfan i Blant a Theuluoedd Rhydfelen
18:15	**Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg -** Darganfyddwch sut i ymgorffori Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn eich lleoliad	Clybiau Plant Cymru	Canolfan i Blant a Theuluoedd Rhydfelen
18:15	**Recriwtio a Hyfforddi Staff -** Cyflwyniad i benodi'n llwyddiannus a sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd DPP.	Clybiau Plant Cymru	Ar-lein
	Dydd Mawrth 12 Hydref		
10:00	**Manteisio i'r eithaf ar Dechnoleg Gwybodaeth -** Sut i wneud y defnydd gorau o dechnoleg yn eich lleoliad.	Clybiau Plant Cymru	Ar-lein
10:00	**DEWIS a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd -** Dysgu rhagor am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a sut y gall eich helpu chi i hyrwyddo'ch busnes i rieni a theuluoedd.	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cyngor RhCT	Ar-lein
13:30	**Ymwybyddiaeth ADY -** Cyflwyniad i'r Ddeddf ALNET newydd a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch lleoliad.	Suzanne Davidson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Ar-lein
13:30	**Deall ac Ymateb i Trawma yn y Blynyddoedd Cynnar -** Dyma sesiwn hyfforddiant sydd â'r nod o'ch cefnogi chi i ddeall ac ymateb i trawma mewn plant bach yn y blynyddoedd cynnar.	Mudiad Meithrin	Ar-lein

AMSER	GWEITHDY	SEFYDLIAD	LLEOLIAD
	Dydd Mercher 13 Hydref		
10:00	**Cyflwyniad i Ddatblygu Gwaith Chwarae ac Arferion y Garfan -** Cyflwyniad i gefnogi arfer gwaith chwarae cadarnhaol yn eu lleoliadau.	Clybiau Plant Cymru	Ar-lein
10:00	**Mudiad Meithrin -** Pwy yw'r Mudiad Meithrin? Beth rydyn ni'n ei wneud a pham mae'r Gymraeg wrth wraidd ein gwaith.	Mudiad Meithrin	Ar-lein
13:30	**Deall ac Ymateb i Drawma yn y Blynyddoedd Cynnar -** Cefnogi chi i ddeall ac ymateb i drawma mewn plant bach yn y blynyddoedd cynnar.	Mudiad Meithrin	Ar-lein
13:30	**Recriwtio a Hyfforddi Staff -** Cyflwyniad i benodi'n llwyddiannus a sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd DPP.	Clybiau Plant Cymru	Ar-lein
16:30	**Dull Chwilfrydedd -** Sesiwn flasu i archwilio'r prif elfennau sy'n rhan o'r dull yma a sut mae'n gwella'r amgylchedd dysgu i blant.	Rainbow Room	Rainbow Room, Cymer, Porth
18:15	**DEWIS a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd -** Dysgu rhagor am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a sut y gall eich helpu chi i hyrwyddo'ch busnes i rieni a theuluoedd.	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cyngor RhCT	Ar-lein
18:15	**Cyfathrebu'n Hyderus ac yn Bendant -** Gwella eich pendantrwydd a dysgu strategaethau i ddatblygu eich hunan-barch a'ch hyder.	PACEY Cymru	Ar-lein
	Dydd Iau 14 Hydref		
10:00	**Rhyngweithio Ystyrlon â Babanod -** Cyflwyno theori, syniadau o ran arfer gorau a dulliau i helpu cynnal rhyngweithio o ansawdd da â babanod o'r crud i 12 mis oed.	NDNA	Ar-lein
10:00	**Cwricwlwm Cymru a'r cwricwlwm nas cynhelir newydd -** Cyflwyniad i'r cwricwlwm newydd a syniadau ar gyfer ei weithredu a sut i baratoi ar gyfer gweithredu ym mis Medi 2022.	Claire Lloyd-Thomas / Vicky Baldock, Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Ar-lein
13:30	**Asesu Risg yn Gywir -** Datblygu gwell dealltwriaeth o sut i gydbwyso risg ac ystyriaethau Iechyd a Diogelwch yn eich lleoliad.	Clybiau Plant Cymru	Ar-lein
13:30	**Lles Staff -** I'w gadarnhau	Rachael's Playhouse	Ar-lein
18:15	**Manteisio i'r eithaf ar Dechnoleg Gwybodaeth -** Sut i wneud y defnydd gorau o dechnoleg yn eich lleoliad.	Clybiau Plant Cymru	Ar-lein
	Dydd Gwener 15 Hydref		
10:00	**Dull Chwilfrydedd -** Cyflwyno'r prif elfennau sy'n rhan o'r dull yma a sut mae'n gwella'r amgylchedd dysgu i blant.	Christine Walker, Rainbow Room	Ar-lein
13:30	**Lles Staff -** I'w gadarnhau	Rachael's Playhouse	Ar-lein
16:00	**Dod â'r gynhadledd i ben a chyhoeddi enillydd y gystadleuaeth!**	Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru	Ar-lein

I gael rhagor o wybodaeth: **www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant.**

Mae'n bosibl bydd y rhaglen yn newid, felly cadwch lygad ar ein gwefan am weithdai newydd y bydd yn cael eu hychwanegu dros yr wythnosau nesaf.